

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

CYMERADWYO RHAGLENNI POLISI

Cyflwyniad.....	3
Adran 1: Cwmpas ac eithriadau	6
Adran 2: Egwyddorion allweddol	7
Adran 3: Amserlenni	8
Adran 4: Datblygu rhaglenni newydd a gwneud newidiadau i raglenni cyfredol	9
Adran 5: Rhoi'r gorau i raglen ac ail-gyflwyno rhaglen sydd eisoes wedi dod i ben	15
Adran 6: Newid dyddiad cychwyn carfan rhaglen	17
Adran 7: Cymorth ac arweiniad.....	19
Atodiad A: Crynodeb o'r lefelau o newid	20

Ein strategaeth: Y Ffordd Ymlaen [2018-2023](#)

Ein gweledigaeth yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuol yn addysgol, yn cael ein gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd. Drwy gyflawni ein gweledigaeth, rydym yn disgwyl gwella ein statws fel un o 100 prifysgol gorau'r byd ac un o'r 20 uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Mae Y Ffordd Ymlaen [2018-2023](#) yn amlinellu'r egwyddorion sy'n arwain y modd y byddwn ni'n rhoi'r uchelgais hwn ar waith, ac mae'n cynnwys 11 o ddangosyddion perfformiad fydd yn ein helpu i fesur ein cynnydd.

Mae ein [strategaeth addysg](#) yn seiliedig ar yr angen am gysondeb ac ystwythder yn y cyd-destun presennol sy'n newid yn gyflym. Mae'n seiliedig ar weledigaeth glir o'r hyn y mae profiad addysg a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ei gynnig ac yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, sef gweithgarwch, datblygiad a chryfder.

Cymeradwyo rhaglenni yw'r broses o sicrhau bod unrhyw ddyfarniad penodol gan Brifysgol Caerdydd o safon academiaidd briodol a bydd yn herio, yn ymestyn ac yn cefnogi ein holl fyfyrwyr i wneud y gorau y gallant.

Datblygwyd y Polisi Cymeradwyo Rhaglen hwn i gyd-fynd â'r [Fframwaith Polisi Darpariaeth ar y Cyd](#) a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd ym mis Gorffennaf 2017. Bydd gweithrediad y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd drwy'r Adroddiad Ansawdd Blynnyddol, er mwyn sicrhau ei fod yn dal i gynorthwyo prosesau mewnol sy'n gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn bodloni'n llawn ddisgwyliadau ar gyfer ansawdd a safonau a geir yng Nghod Ansawdd [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y DU](#).

Trosolwg sefydliadol

Cymeradwyo Rhaglenni

Cafodd y Polisi hwn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) ym mis Ebrill 2018, a bydd yn cael ei adolygu'n gyson i wneud yn siŵr ei fod yn parhau i gefnogi prosesau mewnol sy'n gweithredu'n effeithlon ac effeithiol, yn ogystal â bodloni'r disgwyliadau a'r ymarferion a amlinellir yng [Nghôd Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch wedi'i adolygu](#).

Disgwyliadau o ran safonau	Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono.
Arferion craidd o ran safonau	Ymarferion craidd o ran ansawdd
Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod y trothwy o ran safonau ar gyfer ei gymwysterau yn cyd-fynd â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae'r darparwr yn dylunio a/neu'n cyflwyno cyrsiau o safon uchel.
Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyflawni safonau y tu hwnt i'r trothwy y gellir ei gymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU.	Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel.
Pan mae darparwr yn cydweithio â sefydliadau eraill, mae wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau ei ddyfarniadau'n gredadwy ac yn ddiogel waeth ble neu ym mha fodd y darperir cyrsiau, neu bwy sy'n eu darparu.	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn rhoi profiad academaidd o safon uchel.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd.
	Pan mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno'r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol.
	Pan mae darparwr yn cydweithio â sefydliadau eraill, mae wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y profiad academaidd o ansawdd uchel waeth ble neu ym mha fodd y cyflwynir cyrsiau, neu bwy sy'n eu
	cyflwyno. Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr

	i lwyddo yn academiaidd ac yn broffesiynol.
--	---

Astudio Dramor

Disgwyliadau o ran safonau	Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae safonau academiaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academiaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono.
Arferion craidd o ran safonau	Ymarferion craidd o ran ansawdd
Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod y trothwy o ran safonau ar gyfer ei gymwysterau yn cyd-fynd â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol.	Mae'r darparwr yn dylunio a/neu'n cyflwyno cyrsiau o safon uchel.
Pan mae darparwr yn cydweithio â sefydliadau eraill, mae wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau ei ddyfarniadau'n gredadwy ac yn ddiogel waeth ble neu ym mha fodd y darperir cyrsiau, neu bwy sy'n eu darparu.	Pan mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno'r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol.
	Pan mae darparwr yn cydweithio â sefydliadau eraill, mae wedi gosod trefniadau effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y profiad academiaidd o ansawdd uchel waeth ble neu ym mha fodd y cyflwynir cyrsiau, neu bwy sy'n eu
	cyflwyno. Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academiaidd ac yn broffesiynol.

Adran 1: Cwmpas ac Eithriadau

Cwmpas

O 1 Awst 2017, mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith ar gyfer cymeradwyo rhaglenni (yn cynnwys darpariaeth ar y cyd) sy'n rhoi canllawiau cyffredinol ar gyfer datblygu a rheoli rhaglenni a addysgir newydd a gwneud newidiadau i raglenni cyfredol.

Diben y Polisi hwn yw sicrhau y gall Prifysgol Caerdydd gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol ar gyfer safonau academaidd dyfarniadau ac ansawdd y cyfleoedd dysgu a ddarperir i fyfyrwyr, gan sicrhau bod y Rhaglenni a gynigir gan y Brifysgol yn gymaradwy â darpariaeth gytras a gynigir mewn mannau eraill. Yn ogystal, mae'r Polisi yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Brifysgol wrth wneud newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol o dan y [ddeddf diogelu defnyddwyr](#).

Mae'r Fframwaith Polisi yn rhoi trosolwg o'r gweithdrefnau, y prosesau a'r gofynion ar gyfer:

- i) cynllunio a chymeradwyo rhaglen(ni) neu weithgarwch newydd (yn cynnwys darpariaeth ar y cyd);
- ii) diweddarau ac adolygu rhaglenni presennol;
- iii) rheoli'n barhaus ansawdd rhaglenni neu weithgarwch.

Disgwylir y bydd unrhyw ddatblygiad i'r holl gynigion rhaglenni newydd a newidiadau i raglenni cyfredol yn cael eu datblygu wrth gyfeirio at bolisiau Prifysgol Caerdydd a chodau ymarfer ochr yn ochr ag unrhyw ofynion corff proffesiynol a statudol:

- [Llawlyfr Rheoliadau Academaidd](#);
- [Polisiau Derbyn](#) (gan gynnwys telerau ac amodau'r cynnig)
- [Polisi Ffi Tiwtora](#)
- [Fframwaith Polisi Darpariaeth ar y Cyd](#), lle y bo'n briodol (adolygwyd mis Awst 2017);
- [Polisi Lleoliad Dysgu](#) (Adolygwyd Mehefin 2017), lle bo'n briodol
- [Polisiau Arholi ac Asesu](#) gan gynnwys adnoddau [asesu ac adborth](#)
- [Polisi Astudio Dramor](#) (newydd mis Awst 2018)

Eithriadau

Mae'r polisi hwn yn rhoi canllawiau ar gyfer datblygu rhaglenni newydd a addysgir ac ar gyfer rheoli'r newidiadau i raglenni cyfredol. [Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil](#) yn nodi gofynion y Brifysgol o ran rheoli rhaglenni ei graddau ymchwil. Mae'n disgrifio'r egwyddorion sy'n sail i ofyniad y Brifysgol i Ysgolion reoli a chynorthwyo'u myfyrwyr ymchwil, ac yn nodi fframwaith sefydliadol y gall trefniadau lleol mwy manwl weithredu o'u mewn.

ADRAN 2: Egwyddorion Allweddol

Caiff y prosesau gwneud penderfyniad yn y Polisi hwn eu cynllunio mewn perthynas ag egwyddor arweiniol sybsidaredd, sy'n cefnogi proses fusnes effeithlon y Brifysgol tra'n sicrhau manylder a chraffu cymesur. Mae'n caniatáu i'r Brifysgol gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol o dan God Ymarfer ASA ac o dan [y gyfraith diogelu defnyddwyr](#).

Ar gyfer cynigion sy'n cynnig [darpariaeth gydweithredol](#), ystyriaeth allweddol wrth gymeradwyo gweithgarwch ar y cyd yw p'un a yw cydweithredu â phartner yn risg i safonau academaidd y Brifysgol a phrofiad y myfyrwyr, ac yn sgil hynny, enw da'r Brifysgol. Mae'r angen i ddiogelu'r rhain yn hollbwysig a rhaid sicrhau mai dyna yw'r brif ystyriaeth wrth werthuso buddiannau unrhyw fath o gydweithredu.

Egwyddorion cyffredinol

Cyfnod 1 Cymeradwyaeth Strategol

Cynhelir Cymeradwyaeth Strategol ar lefel Coleg ac mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn allweddol, **'Mewn egwyddor, pam ydym ni'n gwneud hyn?'** Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, mae angen ystyried strategaeth, hyfywedd busnes yn cynnwys costau ac incwm ffioedd dysgu, risgiau (yn cynnwys risgiau i enw da), nifer y myfyrwyr ac ystyriaethau ymarferol ac academaidd. Ystyriaeth allweddol arall fydd adnodd staff (staff gwasanaethau academaidd a phroffesiynol) i gefnogi myfyrwyr drwy gydol y rhaglen.

Cam 2 Cymeradwyaeth Academaidd

Mae'r cam hwn yn gofyn y cwestiwn: **'A yw hyn yn gadarn yn academaidd?'** Bydd y cynnig yn cynnwys ystyried y broses o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, cyfleoedd asesu ac ail-asesu, profiad myfyrwyr, adnoddau dysgu, a threfniadau gweinyddu gweithredol. Bydd **set bendant o wybodaeth rhaglen** yn cael ei chreu ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymgeiswyr er mwyn sicrhau mai'r System Rheoli Gwybodaeth Myfyrwyr y Brifysgol (SIMS) yw'r **unig ffynhonnell o wybodaeth rhaglen a modiwl**.

Cam 3 Cymeradwyaeth y Brifysgol

Unwaith y bydd yr holl amodau wedi cael sylw ac wedi'u cymeradwyo gan y Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid, gellir argymhell y cynnig i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd ar gyfer ei gymeradwyo'n ffurfiol. Ni ellir hysbysebu na rhoi unrhyw gyhoeddusrwydd i unrhyw rhaglen(ni) nes y bydd yn sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol er mwyn sicrhau cywirdeb y wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ac ymgeiswyr.

Ceir gwybodaeth fanwl am bob cam o'r broses yn y Llawlyfr Canllawiau Cymeradwyo Rhaglen.

Adran 3: Amserlenni

Gan fod pob cynnig yn amrywio o ran maint a chymhlethdod, mae'n bwysig bod amser ac adnoddau priodol ar gael i staff yr Ysgol ar bob cam o'r broses a amlinellir yn Adran 2. Gall cynigion sy'n cynnwys [darpariaeth ar y cyd](#) gymryd llawer mwy o amser yn enwedig os oes angen cymeradwyaeth y llywodraeth genedlaethol, neu os oes gan y sefydliad(au) partner brosesau cymeradwyo ychwanegol. Mae'r manylion llawn angenrheidiol ar gyfer datblygu rhaglenni gyda darpariaeth ar y cyd i'w gael yn y [Fframwaith Polisi Darpariaeth ar y Cyd](#).

Mae [cylich gweithgarwch blynyddol](#) wedi'i ddatblygu i amlinellu pob cam o'r broses. Mae'n galluogi'r Ysgolion i ddeall yn union beth sydd ei angen ar bob cam ac mae'n cynnig amserlenni bras ar gyfer cyflwyno i Banel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid. Mae'r cylich blynyddol yn cysylltu gweithgarwch academiaidd a'r gwasanaeth proffesiynol o gamau cyntaf datblygu rhaglenni, marchnata'r rhaglen a recriwtio ar ei chyfer, ac amlygu staff cymorth allweddol ar bob cam.

Gall y Panel Sefydlog Partner a Rhaglen ystyried cynigion ar gyfer rhaglenni newydd a newidiadau i raglenni presennol yn rheolaidd gan fod y Panel Sefydlog yn cwrdd unwaith bob mis (gweler adran 4). Bydd angen i ysgolion bennu amserlenni realistig i ddatblygu cynigion sy'n ddeniadol, yn arloesol ac yn ysgogol i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr yn ogystal â'r amser priodol i gwblhau'r wybodaeth rhaglen lawn i'w gymeradwyo a'i farchnata.

Bydd ystyried cynigion i gyflwyno rhaglenni newydd yn hwyr yn y cylich academiaidd yn effeithio ar allu'r Ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar weithgarwch recriwtio a marchnata a gallu'r Ysgolion i recriwtio i'r niferoedd disgwylidig a nodwyd fel rhan o'u cynllun busnes¹.

Mae angen ystyried newidiadau hwyr i raglenni cyfredol yn ofalus ar gyfer myfyrwyr cyfredol ac ymgeiswyr fel sydd wedi'i amlinellu yn [nhelerau ac amodau cynnig](#) y Brifysgol. Mae Adran 4 yn amlinellu'r broses o ymgynghori â myfyrwyr wrth wneud newidiadau i raglenni presennol a'r broses o gysylltu ag ymgeiswyr ar ôl i newidiadau gael eu gwneud.

¹Bydd angen i Ddirprwy Is-Ganghellor y Coleg gytuno ar gyfer ystyried rhaglenni newydd yn hwyr gan er mwyn pennu ym mha flwyddyn y bydd y rhaglen newydd yn dechrau.

Adran 4: Datblygu rhaglenni newydd a gwneud newidiadau i raglenni cyfredol

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar ddatblygu rhaglenni newydd a gwneud newidiadau i raglenni presennol. Fel arfer mae trafodaethau am flaenoriaethau strategol a datblygu portffolio'n cael eu cynnal yn ystod y broses [Adolygiad Blynyddol a Gwella](#) ym mis Tachwedd bob blwyddyn lle bydd Ysgolion yn amlinellu cynlluniau ar gyfer datblygu darpariaeth newydd neu wneud newidiadau i ddarpariaeth gyfredol.

Ar ôl ystyried/ymgyngori'n fanwl gyda'r Bwrdd/Byrddau Astudiaethau a Bwrdd/Byrddau Ysgolion perthnasol, bydd Ysgolion yn cael eu hannog i ddechrau [Cam 1 y broses cymeradwyo strategol](#) sydd fel arfer yn digwydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth bob blwyddyn i alluogi'r Coleg i ystyried yr holl gynigion yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol.

Fel yr amlinellwyd yn adran 2, bydd pob lefel o newid yn ystyried amrywiaeth eang o faterion, fodd bynnag bydd yr holl newidiadau angen cymeradwyaeth strategol ac academiaidd fel sydd wedi'i amlinellu isod.

Cam 1: Cymeradwyaeth Strategol

Datblygu rhaglenni newydd

Bydd angen i'r Coleg sefydlu p'un a yw'r cynnig yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr Ysgol, y Coleg a'r Brifysgol a'i fod yn cyfiawnhau'r amser a'r adnoddau y byddai'n rhaid i'r Ysgol eu buddsoddi mewn camau dilynol. Bydd angen i bob cynnig ar gyfer datblygu rhaglen(ni) newydd ddangos y canlynol:

- y cyfiawnhad strategol ac academiaidd ar gyfer datblygu'r rhaglen
- tystiolaeth o alw a strategaeth farchnata arfaethedig (y DU a/neu dramor);
- amlinelliad manwl o adnoddau academiaidd ac adnoddau eraill sydd eu hangen;
- niferoedd myfyrwyr arfaethedig dros gyfnod o bum mlynedd;
- dadansoddiad ariannol (yn cynnwys incwm ffioedd a meini prawf llwyddiant);
- nodi unrhyw risgiau anfwriadol i'r Ysgol, Coleg neu Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig.

Os ydy Ysgolion yn datblygu cynigion sy'n cynnwys [darpariaeth ar y cyd](#), bydd angen gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys:

- manylion am y partner arfaethedig a'r [asesiad risg](#) cysylltiedig;
- trefniant ariannol arfaethedig gyda'r partner arfaethedig.

Mae manylion llawn am y dogfennau angenrheidiol ar gyfer cymeradwyaeth strategol Cam 1 ar gyfer datblygu rhaglenni newydd ar gael ar y [mewnrwyd](#) gyda chefnogaeth a chanllawiau ar gael gan eich Swyddog Ansawdd Coleg.

Gwneud newidiadau i raglenni presennol (newidiadau canolraddol a mawr)

Bydd angen i'r Coleg ystyried y rhesymeg tu ôl i'r newidiadau arfaethedig a sicrhau fod cynllun cyfathrebu ymgeiswyr/myfyrwyr manwl yn ei le yn unol â chyfrifoldebau'r Prifysgolion o dan [Cod Ymarfer QAA](#) (Disgwyliad B1, B2 a C) ac o dan [y gyfraith amddiffyn defnyddwyr](#). Bydd pob cynnig ar gyfer gwneud newidiadau i ddarpariaeth bresennol angen dangos y canlynol:

- y cyfiawnhad strategol ac academaidd ar gyfer gwneud newidiadau i'r rhaglen(ni);
- tystiolaeth o ymgynghori gyda myfyrwyr yn unol â'r datganiad amrywiad trefniadau a amlinellir yn [nhelerau ac amodau cynnig](#) y Brifysgol gan gynnwys y cyfle i fyfyrwyr newid i raglen arall neu dynnu'n ôl;
- y cynllun cyfathrebu arfaethedig i ddiweddarau ymgeiswyr am newidiadau i raglen(ni) presennol yn unol â [thelerau ac amodau cynnig](#) y Brifysgol gan gynnwys y cyfle i fyfyrwyr dynnu'n ôl;
- amlinelliad manwl o adnoddau academaidd ac adnoddau eraill sydd eu hangen;
- nodi unrhyw risgiau anfwriadol i'r Ysgol, Coleg neu Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig.

Os yw Ysgolion yn [gwneud newidiadau i raglenni presennol](#) sy'n cynnwys [darpariaeth ar y cyd](#), bydd gwybodaeth bellach yn cael ei darparu ar y canlynol:

- effaith y newidiadau arfaethedig ar gytundeb y rhaglen a'r memorandwm ariannol cysylltiedig;
- yr effaith ar y [Cynllun Rheoli Partneriaeth](#).

Bydd Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg (mewn ymgynghoriad â staff gwasanaethau proffesiynol ac academaidd eraill yn y Coleg a'r Brifysgol ehangach), yn ystyried rhinweddau'r cynnig fel rhan o gyfarfod cymeradwyaeth strategol Cam 1 a byddant yn nodi os gall y cynnig symud ymlaen i Gam 2. Unwaith y byddant wedi derbyn cymeradwyaeth strategol, bydd Swyddog Ansawdd y Coleg yn cysylltu gyda'r Ysgolion i drafod y [dogfennau penodol sydd eu hangen](#) ar gyfer [datblygu rhaglenni newydd neu wneud newidiadau i raglenni presennol](#) ac amserlenni ar gyfer cyflwyno i'r Panel Sefydlog Partner a Rhaglen fel sydd wedi'i amlinellu yn adran 3.

Dylid nodi y gallai Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg wneud cais am wybodaeth bellach neu benderfynu na ddylid symud y cynnig ymlaen i Gam 2.

Mae manylion llawn am y holl ddogfennau angenrheidiol ar gyfer cymeradwyaeth strategol Cam 1 ar gyfer gwneud newidiadau i raglenni presennol ar gael ar y [mewnrwyd](#) gyda chefnogaeth, cyngor a chanllawiau ar gael gan eich Swyddog Ansawdd Coleg a'ch Swyddog Addysg Coleg.

Cam 2: Cymeradwyaeth Academaidd

Mae'r cam hwn yn cynnwys craffu ar yr holl wybodaeth am y rhaglen lle y bydd aelodau'r Panel Sefydlog Partner a Rhaglen yn ystyried materion yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, profiad myfyrwyr, cylch bywyd myfyrwyr yn cynnwys cynnydd (a phwyntiau adfer o fethiant), adnoddau dysgu a threfniadau cymorth a gweinyddu yn yr Ysgol. Unwaith y bydd y Coleg wedi rhoi cymeradwyaeth strategol (fel arfer ym mis Mawrth bob blwyddyn), gall Ysgolion ddechrau datblygu'r wybodaeth rhaglen lawn wrth baratoi i gyflwyno i'r Panel Sefydlog Partner a Rhaglen.

Fel sy'n cael ei amlinellu yn adran 3, bydd Ysgolion angen gosod amserlenni realistig ar gyfer datblygu, cymeradwyo a marchnata eu cynigion i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio yn unol â'r [cylch blynyddol o weithgarwch](#).

Datblygu'r cynnig

Cynllunio rhaglen yn effeithiol

Er mwyn sicrhau fod rhaglenni newydd a newidiadau mawr i gyrsiau presennol yn cael eu dylunio i fod yn ddeniadol, yn arloesol, ac yn ysgogol, dylai arweinwyr rhaglenni gael cefnogaeth gan y Ganolfan Arloesi Addysg (CEI). Yn ogystal â'r Pecyn Cymorth Dylunio Cwricwlwm sy'n cynnwys cyngor, deunyddiau ac adnoddau defnyddiol, mae cefnogaeth technoleg dysgu a dylunio cwricwlwm arbenigol ar gael ar gyfer pob Coleg. Gyda'i gilydd, bydd y Pecyn Cymorth a'r gefnogaeth bersonol yn galluogi datblygu rhaglenni a modiwlau newydd ac wedi'u hailgynllunio sy'n arloesol, ac yna eu cyflwyno i'w cymeradwyo. Bydd hyn yn helpu i ddarparu profiad myfyriwr gwych, tra hefyd yn lleihau'r angen i wneud newidiadau pellach yn y dyfodol.

Gall y Pecyn Cymorth, sydd wedi'i ddylunio'n seiliedig ar y themâu yn Strategaeth Addysg y Brifysgol, gael ei ddefnyddio gan staff academaidd mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol, drwy ddarparu cwestiynau ac awgrymiadau sy'n annog staff i fyfyrion ar ddylunio rhaglenni yn gyfannol, a thrwy ganiatáu manteisio ar arfer da presennol a'i ymgorffori ar y cychwyn. Bydd y tîm CEI yn gallu rhoi cefnogaeth ac arweiniad drwy CEI@cardiff.ac.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau, angen gwybodaeth bellach, neu os hoffech fynediad at y gefnogaeth hon.

Ymgynghori â myfyrwyr

Mae gan y Brifysgol gyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yn ei [delerau ac amodau cynnig](#) wrth wneud newidiadau i ddarpariaeth gyfredol o dan y [gyfraith amddiffyn defnyddwyr](#) ac mae gofyn i Ysgolion ymgynghori gyda myfyrwyr presennol ar unrhyw newidiadau arfaethedig.

Mae ymgynghori gyda myfyrwyr yn cael ei ystyried fel teclyn datblygu cadarnhaol i lywio cynnwys y rhaglen ymhellach ac mae'n rhaid i Ysgolion ystyried amrywiaeth o strategaethau i amddiffyn profiad y myfyriwr a'r ymgeisydd drwy'r broses hon. Wrth ymgynghori gyda myfyrwyr, mae'n rhaid i Ysgolion ystyried y canlynol:

- Adeiladu mewn amserlenni priodol er mwyn cynnal ymgynghoriad ystyrion gyda myfyrwyr drwy amrywiaeth o fformatau e.e. grwpiau ffocws, paneli staff myfyrwyr, holiaduron a chyfryngau cymdeithasol;

- Darparu gwybodaeth glir a chryno i fyfyrwyr am y newidiadau arfaethedig ac ym mha gyd-destun mae'r newidiadau'n cael eu gwneud yn unol â [thelerau ac amodau cynnig](#) y Brifysgol a [threfniadau amrywiad](#);
- Dylid ystyried yr effaith mae'r newidiadau'n debygol o'i gael ar y myfyrwyr mewn ymarfer e.e. a fydd myfyrwyr angen cefnogaeth ychwanegol i addasu? (Tiwtora, mentora, gweithdai sgiliau). Sut y gellir darparu hyn cyn i'r newid ddod i rym?
- Sicrhau fod myfyrwyr yn cael cyfnod rhesymol o amser (2 wythnos o leiaf) i ymateb i'r newidiadau arfaethedig a phwynt cyswllt clir os ydynt yn dymuno codi pryderon;
- Amserlenni clir o ran pryd fydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael a'r mecanweithiau cefnogi sydd ar gael i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod pontio.

Paratoi at gyfer Cyfarfod y Panel Sefydlog Partner a Rhaglen

Anogir yr Ysgol i hyrwyddo dull cydweithredol o ddatblygu'r cynnig gan ganiatáu cyfrifoldeb cyffredinol wrth ddatblygu'r holl wybodaeth rhaglen. Bydd cynnwys arbenigedd gwasanaethau academaidd a phroffesiynol allweddol yn yr Ysgol yn amrywio gan ddibynnu ar natur y cynnig, fodd bynnag dylai gynnwys y canlynol o leiaf:

- Myfyriwr o fewn yr Ysgol sy'n cynnig;
- Cyfaill beirniadol ag arbenigedd ym maes y pwnc a fydd yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Panel Sefydlog Partner a Rhaglen;
- Staff addysgu academaidd allweddol yn yr Ysgol (a thu hwnt os yw'n gynnig ar y cyd) i roi cyngor ar gynnwys, asesu a chyflawni;
- Staff gweinyddol allweddol yn yr Ysgol i roi cyngor ar amserlenni gweithredu a phrosesau'r ysgol;
- Staff gwasanaeth proffesiynol yn y Ganolfan Arloesi Addysg (CEI) i roi cefnogaeth ac arweiniad ar y deunyddiau, ac adnoddau, technoleg dysgu a dylunio cwricwlwm arbenigol sydd ar gael i bob Coleg.

Mae'r holl ddogfennau angenrheidiol ar gyfer [datblygu rhaglenni newydd](#) a [gwneud newidiadau i raglenni presennol](#) ar gael ar y fewnrwyd gyda chefnogaeth, cyngor a chanllawiau ar gael gan eich Swyddog Ansawdd Coleg a'ch Swyddog Addysg Coleg. Bydd Tîm Cyfathrebu eich Coleg hefyd yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad ar ansawdd y wybodaeth rhaglen a gyflwynir a byddant yn cymeradwyo'r templed gwybodaeth rhaglen cyn ei gyflwyno i'r Panel Sefydlog.

Mae rhagor o wybodaeth fanwl am y broses Cam 2 ar gael yn y Llawlyfr Arweiniad Cymeradwyo Rhaglen.

Cyfarfod y Panel Sefydlog

Bydd Panel Sefydlog yn cyfarfod bob mis i ystyried rhaglenni newydd a newidiadau i raglenni presennol gan gynnwys y rhai gyda darpariaeth ar y cyd. Er y bydd pob lefel o newid yn ystyried amrywiaeth eang o faterion, bydd aelodau'r Panel Sefydlog yn craffu ar yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gan gynnwys materion yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, profiad myfyrwyr, cylch bywyd myfyrwyr yn cynnwys cynnydd (a phwyntiau adfer o fethiant), adnoddau dysgu a threfniadau cymorth a gweinyddu yn yr Ysgol.

Ar gyfer cynigion yn ymwneud â [darpariaeth ar y cyd](#), bydd angen rhagor o ystyriaeth ar y wybodaeth a gyflwynir am y partner arfaethedig a gallu'r partner i ddarparu/rheoli'r rhaglen.

Mae'n bwysig bod Ysgolion yn awgrymu'n gynnar pryd y byddant yn debygol o gyflwyno eu [dogfennau terfynol](#)² i'r Panel Sefydlog i sicrhau y gellir ei ychwanegu at yr atodlen busnes. Bydd ystyried cynigion yn hwyr yn y cylch academaidd yn effeithio ar allu'r Ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar weithgarwch recriwtio a marchnata a gallu'r Ysgolion i recriwtio i'r niferoedd disgwylidig a nodwyd fel rhan o'u cynllun busnes yng Ngham 1.

Ar ôl ystyried y cynnig y bydd y Panel Sefydlog yn argymhell un o'r canlyniadau canlynol yn ysgrifenedig at yr Ysgol a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd:

- dylai'r cynnig gael ei gymeradwyo'n ddiamed gyda neu heb argymhellion;
- dylai'r cynnig gael ei gymeradwyo yn amodol ar fodloni amodau penodol o fewn cyfnod penodol o amser, gyda neu heb argymhellion ychwanegol;
- dylai'r cynnig gael ei gyfeirio'n ôl i'r Ysgol i roi ystyriaeth fanwl bellach iddo cyn iddo gael ei gyflwyno i gyfarfod diweddarach y Panel Sefydlog;
- dylid gwrthod y cynnig.

Os oes amodau wedi cael eu gosod, bydd yr Ysgol angen nodi'n glir pryd maen nhw'n bwriadu ail-gyflwyno'r dogfennau i'r Panel Sefydlog Partner a Rhaglen. Pan fydd Cadeirydd y Panel Sefydlog Partner a Rhaglen wedi cadarnhau bod yr holl amodau wedi cael eu bodloni, gellir gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Is-Ganghellor, Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd i'w chymeradwyo ar ran y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd.

Cam 3: Cymeradwyaeth gan Y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd

Yn y cam terfynol hwn, mae'r cynnig yn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae'n bwysig nodi bod rhaid cwblhau unrhyw amodau sy'n codi o ystyried y cynnig cyn gallu dechrau marchnata.

Os gwnaed newidiadau i raglenni presennol, mae angen i Ysgolion roi cynllun cyfathrebu sydd wedi'i nodi fel rhan o Gam 2 ar waith er mwyn sicrhau y cysylltir â'r holl fyfyrwyr presennol a/neu ymgeiswyr gyda gwybodaeth am y newidiadau sydd wedi'u gwneud yn unol â [thelerau ac amodau cynnig](#) y Brifysgol gan gynnwys y cynnig i ymgeiswyr dynnu eu cais yn ôl.

Bydd cyswllt cynnar gyda'r [Tîm Derbyn](#) yn helpu i gefnogi'r broses o gysylltu gydag ymgeiswyr a'u cefnogi er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o effaith y newidiadau gan y bydd hyn yn gofyn am [ail-gyhoeddi cyfrwng gwydn wedi'i ddiweddarau](#) sy'n cynnig gwybodaeth ar delerau ac amodau cynnig cyhoeddedig y Brifysgol, gwybodaeth rhaglen wedi'i diweddarau (oherwydd y newidiadau a wnaed), y [gweithdrefnau cwynion ac apeliadau ymgeiswyr](#), [polisiâu addasrwydd i weithio](#) a diogelu. [Mân newidiadau i raglenni](#)

²Bydd Swyddog Ansawdd y Coleg a Thîm Cyfathrebu'r Coleg yn cymeradwyo'r dogfennau terfynol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sefydlog Partner a Rhaglen.

Cyfrifoldeb cyffredinol Penaethiaid yr Ysgol yw sicrhau bod cylch clir o fonitro, adolygu a gwerthuso rhaglenni yn unol â [Phennod B8 QAA: Adolygu a Monitro Rhaglenni](#) sy'n bwydo i'r broses [Adolygu a Gwella Blynyddol](#) (ARE). O ganlyniad i'r cylch adolygu a gwerthuso hwn, mae Ysgolion yn cael y cyfle i wneud [mân newidiadau i raglenni presennol](#) (a nodwyd yn Atodiad A) dan nawdd y Bwrdd Astudiaethau a Bwrdd yr Ysgol.

Nid oes angen i fân newidiadau gael eu hystyried gan y Coleg neu yn y Panel Sefydlog Partner a Rhaglen ac fel arfer maen nhw'n cael eu diweddarau a'u cadarnhau yn y System Gwybodaeth Rheoli Myfyrwyr y Brifysgol (SIMS) ym mis Mawrth bob blwyddyn.

Bydd angen i bob Bwrdd Astudiaethau a Bwrdd yr Ysgol ystyried y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig a'r effaith bosibl o newid cronus i'r rhaglen dros gyfnod o amser. Bydd pob cynnig ar gyfer gwneud newidiadau i ddarpariaeth bresennol angen dangos y canlynol:

- y cyfiawnhad a'r rhesymeg academaidd ar gyfer gwneud mân newidiadau i'r rhaglen(ni);
- yr effaith bosibl ar fodiwlau eraill yn yr Ysgol neu du allan i'r Ysgol;
- yr effaith bosibl ar unrhyw ddarpariaeth Cyd-anrhydedd;
- yr effaith bosibl ar ddeilliannau dysgu lefel y rhaglen;
- tystiolaeth o ymgynghori gyda myfyrwyr yn unol â'r datganiad amrywiad trefniadau a amlinellir yn [nhelerau ac amodau cynnig](#) y Brifysgol;
- effaith y newid yn unol â chyfrifoldeb y Brifysgol o dan [y gyfraith diogelu defnyddwyr](#);
- amlinelliad manwl o unrhyw adnoddau academaidd a/neu adnoddau eraill sydd eu hangen o ganlyniad i'r newid;
- nodi unrhyw risgiau anfwriadol i'r Ysgol, Coleg neu Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig.

Os yw Ysgolion yn [gwneud newidiadau i raglenni presennol](#) sy'n cynnwys [darpariaeth ar y cyd](#), bydd gwybodaeth bellach yn cael ei darparu ar y canlynol:

- y broses ymgynghori a mewnbwn gan y sefydliad partner ar y newidiadau arfaethedig;
- yr effaith ar y [Cynllun Rheoli Partneriaeth](#).

Os bydd Bwrdd Astudiaethau/Bwrdd yr Ysgol yn ystyried fod effaith gronus y cynnig yn fwy na 'bach', gallant gyfeirio'r newidiadau yn ôl i'r Ysgol i'w hystyried naill ai fel newid canolraddol neu newid mawr.

ADRAN 5: Rhoi'r gorau i raglen ac ail-gyflwyno rhaglen sydd eisoes wedi dod i ben

Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad ar y broses o [ddod â rhaglen\(ni\) bresennol/presennol i ben](#) (gan gynnwys y rhai hynny gyda darpariaeth gydweithredol) ynghyd â chanllawiau ar [adfer rhaglen sydd wedi gorffen eisoes](#) o fewn 2 flynedd³.

Fel y nodwyd yn adran 4, mae trafodaethau ynghylch blaenoriaethau strategol a datblygu portffolio fel arfer yn digwydd yn ystod y broses [Adolygiad a Gwella Blynyddol](#) sy'n digwydd ym mis Tachwedd bob blwyddyn. Dylai hyn gynnwys trafodaethau am roi gorau i ddarpariaeth nad yw bellach yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol.

Dylid cyflwyno pob cais i ddod i ben o leiaf 9 i 12 mis cyn dechrau'r sesiwn academaidd newydd.

Egwyddorion allweddol

Wrth ddod â rhaglen i ben (gan gynnwys y rhai hynny gyda darpariaeth ar y cyd), mae angen i Ysgolion ystyried amseriad y cynnig i leihau effaith y penderfyniad ar fyfyrwyr cyfredol ac unrhyw ymgeisydd/ymgeiswyr sydd wedi cael cynigion i astudio mewn blynyddoedd i ddod.

Dylai ystyriaethau allweddol gynnwys:

- y rhesymau dros ddod â'r rhaglen arfaethedig i ben (nid yw diweddarau'r cwricwlwm yn cael ei ystyried fel rhesymau priodol i ddod â rhaglen i ben);
- y flwyddyn academaidd pan fydd y rhaglen yn dod i ben;
- goblygiadau ariannol dod â'r rhaglen i ben a sut y bydd yr incwm yn cael ei adennill a dyletswyddau staffio'n cael eu hailddosbarthu;
- cynllun cyfathrebu manwl sy'n disgrifio pa gamau i'w cymryd mewn perthynas ag unrhyw ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig derbyn ar gyfer y rhaglen yn unol â chyfrifoldebau'r Brifysgol sydd wedi'u hamlinellu yn y [telerau ac amodau cynnig](#);
- 'Cynllun Gorffen Dysgu' arfaethedig ar gyfer y garfan o fyfyrwyr sy'n symud ymlaen drwy'r rhaglen gan gynnwys trefniadau penodol i fyfyrwyr ar ohirio astudiaethau, blwyddyn lleoliad neu ailadrodd modiwlau.

Ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys [darpariaeth ar y cyd](#), bydd angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r canlynol:

- y cyfnod rhybudd a nodwyd yn y cyswllt gyda'r sefydliad partner a'r trefniadau dod â chytundeb i ben;
- y trefniadau ar gyfer cefnogi addysgu/myfyrwyr cymorth os bydd y rhaglen yn cael ei addysgu i fwrdd o safle Prifysgol Caerdydd;

³Ni all rhaglenni sy'n cynnwys darpariad ar y cyd gael eu hail-gyflwyno heb fynd drwy'r broses cymeradwyo rhaglenni llawn eto.

- hysbysu'r arholwr allanol a safonwr y Brifysgol o'r trefniadau dod â chytundeb i ben;
- diweddarau'r cynllun rheoli partneriaeth i adlewyrchu'r trefniadau gorffen dysgu y cytunwyd arnynt i ddiogelu profiad y myfyriwr;
- trefniadau penodol ar gyfer myfyrwyr ar gyfnod o ohirio astudiaeth, blwyddyn lleoliad neu ailadrodd modiwlau yn unol â'r trefniadau dod â'r cytundeb i ben.

Mae'n rhaid i'r Ysgol gyflwyno [Ffurflen Dod i Ben](#) wedi'i llenwi, a'i llofnodi i Swyddog Ansawdd y Coleg cyn cael ei chyflwyno i Ddirprwy Is-Ganghellor y Coleg ei hystyried. Gall Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg wneud cais am wybodaeth bellach cyn argymhell dod â'r rhaglen i ben i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd ei gymeradwyo.

Dod â rhaglenni i ben yn hwyr

Lle mae'r penderfyniad i ddod â rhaglenni i ben wedi'u nodi'n hwyr yn y cylch academiaidd (ar ôl Ionawr 15), bydd Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg (mewn ymgynghoriad â staff gwasanaethau proffesiynol ac academiaidd eraill o'r Coleg a'r Brifysgol ehangach), yn ystyried y cais fel rhan o'r broses gymeradwyo strategol a gallant fod angen gwybodaeth bellach gan Bennaeth yr Ysgol gan gynnwys gwybodaeth am liniaru colled ariannol a diogelu profiad y myfyriwr.

Gall Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg benderfynu na ddylid dod â'r rhaglen i ben oherwydd y risgiau posibl sy'n gysylltiedig gyda dod â'r rhaglen i ben ar fyr rybudd.

Hysbysu myfyrwyr presennol ac ymgeiswyr o'r penderfyniad i ddod â rhaglen i ben

Mae angen i Ysgolion roi cynllun cyfathrebu sydd wedi'i nodi yn y Ffurflen Dod i Ben er mwyn sicrhau y cysylltir â'r holl fyfyrwyr presennol a/neu ymgeiswyr gyda gwybodaeth am y newidiadau sydd wedi'u gwneud yn unol â [thelerau ac amodau cynnig](#) y Brifysgol. Bydd cyswllt cynnar gyda'r [Tîm Derbyn](#) yn helpu i gefnogi'r broses o gysylltu ag ymgeiswyr a'u cefnogi i sicrhau eu bod yn ymwybodol o effaith dod â rhaglen i ben ac unrhyw gefnogaeth y gellir ei gynnig i ddod o hyd i ddewisiadau amgen addas yn y Brifysgol.

Diogelu profiad y myfyriwr

Mae'n rhaid i ysgolion gymryd camau i sicrhau bod myfyrwyr sy'n dilyn y rhaglen ar hyn o bryd yn cael profiad myfyrwyr sy'n gymaradwy ag unrhyw garfanau blaenorol. Rhaid rheoli camau i ddod â rhaglen i ben yn ofalus er mwyn sicrhau y caiff safonau academiaidd ac ansawdd y profiad eu cynnal ar gyfer y myfyrwyr sy'n weddill. Bydd hyn yn cynnwys paratoi 'Cynllun Teach Out' yn nodi'r sefyllfa a'r disgwyladau sy'n deillio o hyn, cyfrifoldebau perthnasol y ddwy ochr ac amserlen glir. Bydd y Gofrestrfa yn cynorthwyo ysgol i baratoi 'Cynllun Teach Out' a chaiff ei fonitro drwy Adolygiad a Gwelliant Blynyddol nes y bydd yr holl fyfyrwyr wedi cwblhau neu adael y rhaglen.

Cynlluniau Teach Out

Mae gan yr Ysgol gyfrifoldeb i lunio, gweithredu a monitro 'Cynlluniau Teach Out' nes y bydd yr holl fyfyrwyr wedi cwblhau neu adael y rhaglen(ni). Rhaid monitro

cynnydd myfyrwyr ar bob bwrdd arholi a bydd cynnydd cyffredinol yn cael ei fonitro drwy ARE. Ar gyfer darpariaeth ar y cyd, mae'n rhaid i'r holl 'Gynlluniau Teach Out' gael eu cytuno gyda'r sefydliad partner a'u llofnodi gan y ddau sefydliad.

Adfer rhaglen sydd wedi dod i ben

Fel gyda cheisiadau i ddod â rhaglen i ben, bydd cynigion i [adfer rhaglen](#) sydd wedi dod i ben ers llai na dwy sesiwn olynol angen cael eu trafod o amgylch y broses alinio rhaglenni gyda blaenoriaethau strategol a datblygu portffolio'r Ysgolion. Bydd ail-gyflwyno rhaglen sydd wedi dod i ben yn flaenorol angen dilyn yr un amserlenni a nodwyd yn y [cylch blynyddol o weithgarwch](#) a nodwyd yn adran 3. Bydd angen i'r Ysgol gwblhau proses gymeradwyo strategol Cam 1 a amlinellir yn adran 4 ynghyd â rhesymeg ynghylch pam mae amgylchiadau ar gyfer y penderfyniad i ddod â'r rhaglen i ben yn flaenorol wedi newid. Hefyd, bydd angen i'r Ysgol ystyried:

- os oes angen unrhyw newidiadau i ddiweddarau gwybodaeth y rhaglen ac os felly beth fyddai'r newidiadau arfaethedig. Mewn achosion lle mae'r newidiadau hyn yn ddigon sylweddol i ail-gymeradwyo'r rhaglen, caiff Ysgolion eu hatgoffa bod angen iddynt ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni newydd, fel y nodir yn y Polisi hwn;
- y flwyddyn academaidd pan fydd y rhaglen yn ail-gychwyn;
- y goblygiadau ariannol o ail-gyflwyno rhaglen a sut y bydd dyletswyddau staffio'n cael eu hail-ddosbarthu yn yr Ysgol i dalu am y gwaith adfer;
- cynllun cyfathrebu manwl yn disgrifio pa gamau y dylid eu cymryd o ran marchnata'r rhaglen.

Bydd Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg (mewn ymgynghoriad gyda staff gwasanaethau proffesiynol ac academaidd eraill yn y Coleg a'r Brifysgol ehangach), yn ystyried y cais a gallai fod angen gwybodaeth bellach gan Bennaeth yr Ysgol gan gynnwys y rheswm dros y penderfyniad gwreiddiol i ddod â'r rhaglen i ben.

Gallai Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg benderfynu na ddylai'r rhaglen gael ei hadfer os nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r cynnig neu fod y cais ar fyr rybudd lle mae'r cyfle i farchnata a recriwtio yn gyfyngedig.

Bydd unrhyw gynnig sydd wedi dod i ben am fwy na dwy sesiwn olynol angen mynd drwy'r broses gymeradwyo rhaglen lawn a amlinellir yn adran 4.

ADRAN 6: Newid dyddiad cychwyn carfan rhaglen

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar y broses o newid dyddiad cychwyn carfan rhaglen bresennol gan gynnwys y rhai gyda darpariaeth ar y cyd.

Egwyddorion Allweddol

Wrth newid dyddiad cychwyn carfan rhaglen, bydd Ysgolion angen ystyried amrywiaeth eang o faterion cyn cwblhau'r [Ffurflen Newid Dyddiad Cychwyn Carfan](#).

- os oes angen unrhyw newidiadau i ddiweddarau gwybodaeth y rhaglen ac os felly beth fyddai'r newidiadau arfaethedig. Mewn achosion lle mae'r newidiadau hyn yn ddigon sylweddol i ail-gymeradwyo'r rhaglen, caiff Ysgolion eu hatgoffa bod angen iddynt ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni newydd, fel y nodir yn y Polisi hwn;
- y flwyddyn academaidd y mae'r newid i'r dyddiad dechrau carfan yn effeithiol;
- y goblygiadau ariannol o newid dyddiad cychwyn carfan a sut y bydd dyletswyddau staffio'n cael eu rheoli yn yr Ysgol i gwmpasu'r newid;
- cynllun cyfathrebu manwl sy'n disgrifio pa gamau i'w cymryd mewn perthynas ag unrhyw ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig derbyn ar gyfer y rhaglen yn unol â chyfrifoldebau'r Brifysgol sydd wedi'u hamlinellu yn y [telerau ac amodau cynnig](#);

Ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys [darpariaeth ar y cyd](#), bydd angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r canlynol:

- y cyfnod rhybudd a nodwyd yn y cyswllt ar gyfer gwneud newidiadau i'r dyddiad dechrau carfan;
- y trefniadau ar gyfer cefnogi addysgu/myfyrwyr cymorth os bydd y rhaglen yn cael ei addysgu i ffwrdd o safle Prifysgol Caerdydd;
- hysbysu'r arholwr allanol a safonwr y Brifysgol o newid dyddiad dechrau carfan;
- diweddarau'r cynllun rheoli partneriaeth i adlewyrchu'r newid dyddiad cychwyn carfan i ddiogelu profiad y myfyriwr;
- trefniadau penodol ar gyfer myfyrwyr ar gyfnod o ohirio astudiaeth, blwyddyn lleoliad neu ailadrodd modiwlau.

Bydd Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg (mewn ymgynghoriad gyda staff gwasanaethau proffesiynol ac academaidd eraill yn y Coleg a'r Brifysgol ehangach), yn ystyried y cais a gallai fod angen gwybodaeth bellach gan Bennaeth yr Ysgol.

Gallai Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg benderfynu na ddylai dyddiad dechrau carfan newid os nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r cynnig neu fod y cais ar fyr rybudd lle mae'r cyfle i ddiogelu profiad y myfyriwr yn cael ei gyfaddawdu.

ADRAN 7: Cymorth ac Arweiniad

Gan fod y mathau o gynigion yn amrywio o ran maint, cymhlethdod a risg, bydd nifer o staff gwasanaethau proffesiynol ac academiaidd yn rhan o gefnogi datblygu a chymeradwyo'r rhaglenni newydd a newidiadau i raglenni presennol. Caiff ysgolion eu hannog i fanteisio ar yr amrywiaeth o arbenigedd perthnasol sy'n bodoli ar draws y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys:

Swyddog Ansawdd y Colegau

quality@caerdydd.ac.uk

Swyddogion Addysg y Coleg

registriesupport@caerdydd.ac.uk

Achosion Myfyrwyr a Chydymffurfiaeth Haen 4

pbi@caerdydd.ac.uk (Cydymffurfiaeth Haen 4)

Studentcases@caerdydd.ac.uk (Achosion Myfyrwyr)

Derbyn Israddedigion ac Ôl-raddedigion

atutors@cf.ac.uk

Y Ganolfan Arloesedd Addysg

CEI@caerdydd.ac.uk.

Y Ganolfan Cefnogi a Lles Myfyrwyr

studentsupportcentre@caerdydd.ac.uk

Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg:

Elliw Iwan: lwanEH@cf.ac.uk

Y Swyddfa Ryngwladol

international@caerdydd.ac.uk

Gellir gweld manylion llawn yr holl staff gwasanaeth proffesiynol yn y gofrestrfa ar y [fewnrwyd](#).

ATODIAD A Crynodeb o'r lefelau o newid

Mân Newidiadau

- Newidiadau i deitl modiwl nad yw'n effeithio ar ganlyniadau dysgu'r modiwl;
- Newid credyd lle mae credydau'n symud drwy uno neu gael eu dargyfeirio i fodiwlau eraill (hyd at ac yn cynnwys 40 o gredydau ar gyfer pob blwyddyn o astudiaeth Israddedig ac Ôl-raddedig a Addysgir a rhaid iddo gynnwys dogfen fapio fel tystiolaeth - pro rata ar gyfer rhaglenni rhan amser);
- Ychwanegu / dileu modiwlau modiwl dewisol (mae ychwanegu / dileu modiwlau craidd yn cael eu hystyried yn newidiadau mawr);
- Newidiadau i ddeilliannau dysgu modiwl;
- Newidiadau i ddulliau addysgu modiwl;
- Newidiadau i oriau astudio modiwl;
- Newidiadau i ddull o asesu modiwl;
- Newidiadau i'r math o asesu mewn modiwl;
- Newidiadau i'r pwysoliad a roddir i asesu mewn modiwl;
- Mân newidiadau i ddisgrifiad o fodiwl.
- Mân newidiadau i gynnwys/maes llafur

Newidiadau Canolig

- Newid i deitl rhaglen (bydd angen mapio modiwl i sicrhau fod canlyniadau dysgu lefel y rhaglen yn cael eu hadlewyrchu o hyd);
- Newid natur y dyfarniad (e.e. newid dyfarniad MA yn ddyfarniad MSc);
- Newidiadau i fodiwlau sy'n cynnwys mwy na 40 o gredydau ym mhob blwyddyn astudio a hyd at 120 o gredydau ar draws yr holl raglen i Israddedigion (pro rata ar gyfer rhaglenni rhan amser);
- Newidiadau i fodiwlau sy'n cynnwys mwy na 40 o gredydau a hyd at 80 o gredydau ar draws yr elfen a addysgir o'r rhaglenni Ôl-Raddedig a Addysgir (pro rata ar gyfer rhaglenni rhan amser)
- Cyflwyno blwyddyn ryngosod;
- Ychwanegu Lleoliad Astudio Tramor;
- Ychwanegu lleoliad gwaith/diwydiannol;
- Addasiadau lle ceir goblygiadau o ran adnoddau
- Unrhyw newid a gynnigir fel eithriad i Reoliadau'r Senedd

Newidiadau Mawr

- Ychwanegu dyfarniad dros dro;
- Newid yn lefel y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch;
- Newidiadau i nodau lefel y rhaglen a'r deilliannau dysgu bwriadedig;
- Newidiadau i strategaeth asesu a strwythur sy'n effeithio ar fwy na 120 o gredydau ar gyfer Rhaglenni i Israddedigion;
- Newidiadau i strategaeth asesu a strwythur sy'n effeithio ar fwy na 80 o gredydau ar gyfer Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir;
- Newid hyd y rhaglen;
- Newid y dull o gyflawni rhaglenni (e.e. cyflwyno llwybr rhan amser neu symud o hyfforddiant wyneb yn wyneb i ddysgu o bell);
- Cydweithredu â sefydliad arall a/neu gyflawni rhaglen, neu ran o raglen, dramor;
- Addasiadau i raglen sy'n effeithio ar raglenni a gynnigir gan Ysgolion eraill (e.e. dyfarniadau ar y cyd i Israddedigion)
- Gofynion achredu proffesiynol (mae gan hyn oblygiadau ar gyfer y ffurflen KIS)
- Newid i'r rhaglen sy'n effeithio'n gronol ar fwy na thraean o'r deilliannau dysgu ar lefel y rhaglen;
- Newidiadau cronodig i fodiwlau a rhaglenni a nodwyd gan yr Ysgol sy'n galw am ail-ddilysu'r rhaglen;